



Dyma drydedd rhifyn cylchlythyr Partneriaeth Dysgu, Medrau ac Arloesi'r De-ddwyrain. Bydd ein cylchlythyrau'n sôn am waith y bartneriaeth, y cynnydd hyd yma a'r modd y byddwn ni'n cydweithio â budd-ddalwyr i hybu medrau, dysgu a swyddi yn y de-ddwyrain.

Trydydd seminar i fudd-ddalwyr: araith gyweirnod gan yr Athro Karel Williams (Ysgol Busnes Manceinion) am osod sylfaen gadarn ar gyfer yr economi, a chyflwyniad Tracy Murphy (KPMG) am hybu medrau yn rhan o weithgareddau Cytundeb Dinas.

Bu'r trydydd seminar ar gyfer budd-ddalwyr ar 8^{fed} Hydref 2015 yng Ngholeg Caerdydd a Bro Morgannwg. Mynegodd yr Athro Karel Williams ei farn am anawsterau'r economi gan roi sylw arbennig i angen polisiau arloesol er mwyn datblygu sylfaen economaidd gadarn. Rhoes Tracy Murphy (KPMG) gyflwyniad am fenter Cytundeb Dinas gan roi crynodeb o'r cytundebau sydd ar waith a'r modd y bydd y drefn yn mynd rhagddi. At hynny, fe roes uwch ymchwilydd y bartneriaeth, Richard Staniforth, grynodedd am yr asesiad sydd wedi'i gwblhau yn ddiweddar ynglŷn â'r galw a'r cyflenwad.

Roedd cylchoedd trafod am bedwar pwnc:

- Ysgolion a gyrfaeodd. **Camau allweddol** yn sgîl y drafodaeth: ymgysylltu â chyrrff llywodraethu a rhieni.
- Medrau lefel uwch (prifysgolion, colegau a phrentisiaethau). **Camau allweddol:** rhagor o ymchwil i anghenion rheolwyr, cynghori ac arwain disgyblion o dan 16 oed yn well a sefydlu rhwydweithiau dysgu.
- Anawsterau o ran meithrin medrau ymhlith oedolion. **Camau allweddol:** buddsoddi rhagor mewn dysgu a datblygu i'r rhai dros 25 oed yn ôl trefniadau Cytundeb Dinas ac ymgysylltu â chyflogwyr o ran polisiau.
- Ffyrdd newydd o feithrin medrau. **Camau allweddol:** gofyn i gyflogwyr ac ysgolion gydweithio'n agosach i ddibenion llwybrau galwedigaethol.

Adroddiad yr Athro Karel Williams i Ffederasiwn y Busnesau Bach am bolisi economaidd Cymru

Mae'r Athro Karel Williams wedi ysgrifennu adroddiad i Ffederasiwn y Busnesau Bach, 'What Wales Could Be'. Diben yr adroddiad yw ystyried beth sy'n digwydd yn economi Cymru ac awgrymu ffyrdd amgen o wella byd cwmnïau a chymunedau bychain y wlad. Mae'n cynnig ffyrdd newydd o ddeall problemau economi Cymru ac yn adolygu polisiau presennol Llywodraeth Cymru. Fe ddaw i'r casgliad bod problemau o ganlyniad i ildio grym y wladwriaeth a ffafrio buddiannau corfforaethol ac ariannol ers 1979, heb bennu telerau cyfansoddiadol o ran sut y dylid defnyddio'r grym hwnnw a sut y bydd y wladwriaeth yn ymwneud ag e, yn arbennig mewn gweithgareddau sylfaenol sy'n hollbwysig i les y wlad. Mae'r adroddiad o blaid sefydlu ffordd wahanol a mwy anuniongyrchol o atgyfnerthu anogaethau ariannol i ddatblygu cwmnïau bychain a chanolig eu maint am fod y duedd i newid perchnogion yn aml yn tanseilio cyfrifoldeb.

Dyma'r adroddiad: <http://ow.ly/VTxQ9>

Asesu'r galw a'r cyflenwad: mae'r broses wedi'i gorffen bellach.

Rydyn ni wedi asesu'r galw a'r cyflenwad bellach ac mae'r adroddiad ar wefan y bartneriaeth (www.lskip.wales). Mae'n canolbwyntio ar ddylanwadu ar ddyraniadau dysgu yn y gwaith a phrentisiaethau yn 2016-17 a defnyddio arian ar gyfer colegau i'r rhai dros 16 oed yn 2016-17. Bu'r adroddiad gerbron Bwrdd Cyflogaeth a Medrau'r De-ddwyrain fis Medi 2015.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru inni flaenoriaethu pedwar sector yn y flwyddyn gyntaf sef deunyddiau cymhleth a chynhyrchu, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, adeiladu a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. At hynny, nodwyd bod angen cywiro anghysondeb gan nad yw galw'r myfyrwyr yn gweddu i anghenion y gweithlu.

Mae gwaith yn mynd rhagddo bellach ynglŷn ag anghenion cyflenwyr y de-ddwyrain a bydd y canlyniadau yn fersiwn nesaf y cynllun gweithredu ar gyfer swyddi a medrau sydd i'w gyhoeddi fis Mawrth 2016.

Cytundeb Dinas Caerdydd: cam yn nes

Fis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Carwyn Jones y byddai'n sefydlu bwrdd newydd i oruchwylio prosiectau Cytundeb Dinas Caerdydd, gwerth £1.2 biliwn, ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (<http://ow.ly/VTDXe>). Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £580 miliwn (arian cyfatebol) a bydd 10 cyngor lleol y rhanbarth yn cael cyfalaf ychwanegol ar fenthg (£120 miliwn). Y gobaith yw y bydd trefniadau ariannu, llywodraethu a chyflawni Cytundeb Dinas Caerdydd yn barod erbyn haf 2016.

Bwrdd Pontio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd: penodi aelodau

Edwina Hart sefydlodd Fwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fis Tachwedd 2013. Mae bwrdd pontio wedi'i sefydlu bellach i lunio cam nesaf datblygu'r rhanbarth. Un o gyfarwyddwyr cwmni BT, Ann Beynon, fydd yn llywio'r bwrdd. Bydd y bwrdd yn hyrwyddo cydweithio er llwyddiant hirdymor Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ogystal â rheoli trefniadau pontio'r llywodraethu, rhoi cynghorion am ddatblygiadau rhanbarthol eraill a pharhau â gwaith y bwrdd blaenorol o ran mentrau megis Cytundeb Dinas Caerdydd.

Cronfa Dysgu Undebau Llafur Cymru: cyfres newydd yr ariannu

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai cyfres ariannu newydd ar gyfer Cronfa Dysgu Undebau Llafur Cymru fis Hydref 2015. Mae'r gronfa'n rhaglen lwyddiannus lle mae undebau llafur yn cyflwyno ceisiadau am arian ar gyfer prosiectau hyrwyddo a chyflawni dysgu yn y gwaith ledled y wlad. Nodau'r gronfa yw cynnig cyfleoedd i ddysgu a meithrin medrau yn y gwaith i ragor o bobl, annog dysgwyr anodd eu cyrraedd a dysgwyr cyndyn i gymryd rhan ac ymgysylltu â chyflogwyr ynglŷn â materion medrau. Mae'r undebau llafur wrthi'n trafod prosiectau arfaethedig gyda chyflogwyr a phartneriaid ac yn paratoi ceisiadau sydd i'w cyflwyno erbyn 8^{fed} Ionawr 2016. Bydd y gyfres hon ar waith rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018 ac mae disgwyl y bydd tua 20-30 o geisiadau yn cael eu cyflwyno. Dylai unrhyw fudd-ddalwyr neu gyflogwyr a hoffai gymryd rhan gysylltu â'r undebau llafur maen nhw'n eu cydnabod neu TUC Cymru i ofyn am ragor o fanylion. Amcan pob prosiectau fydd gweddu i gynllun medrau'r rhanbarth. Gofynnwyd i'r bartneriaeth adolygu'r rhai llwyddiannus yn y flwyddyn newydd a chynnig argymhellion angenrheidiol fel y bydd popeth yn gweddu i anghenion y rhanbarth.

<http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/walesunionlearningfund/?lang=en>